OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 783 (Cy. 124)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Offeryn)*

Mae'r Offeryn hwn yn diwygio Rheoliadau Arwyddion Traffig 2016 a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016, a elwir gyda'i gilydd yn Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016 ("Offeryn 2016"). Mae'r diwygiadau hyn yn berthnasol i Gymru yn unig ac maent yn ganlyniadol i Orchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20 mya) (Cymru) 2022 ac yn atodol i'r Gorchymyn hwnnw, sy'n gostwng y terfyn cyflymder cyffredinol ar gyfer ffyrdd cyfyngedig o 30 milltir yr awr i 20 milltir yr awr yng Nghymru o 17 Medi 2023. Mae cyfeiriad yn y nodyn hwn at Atodlen yn gyfeiriad at Atodlen i Offeryn 2016.

Mae rheoliad 3 yn galluogi defnyddio plât newydd ynghylch diogelwch ar y ffordd yn ychwanegol at yr arwyddion sy'n rhybuddio ynghylch plant ymhellach ymlaen yn mynd i'r ysgol neu oddi yno, neu'n mynd i faes chwarae neu oddi yno, neu ynghylch twmpathau ffordd. Mae hefyd yn galluogi cael plât sy'n rhybuddio ynghylch ardal tawelu traffig gydag arwydd ar gyfer twmpathau ffordd.

Mae rheoliad 4 yn diwygio cymhwysiad yr arwyddion a ddefnyddir i hysbysu am fynedfa ac allanfa parth 20 mya fel na ellir eu defnyddio yng Nghymru mwyach. O ganlyniad i ostwng y terfyn cyflymder cyffredinol ar gyfer ffyrdd cyfyngedig o 30 mya i 20 mya yng Nghymru, ni fydd parthau 20 mya yn angenrheidiol mwyach a byddant felly yn cael eu diddymu.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2023 No. 783 (W. 124)

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The Traffic Signs (Amendment) (Wales) Regulations and General Directions 2023

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Instrument)*

This Instrument amends the Traffic Signs Regulations 2016 and the Traffic Signs General Directions 2016, together cited as the Traffic Signs Regulations and General Directions 2016 ("the 2016 Instrument"). These amendments are only relevant to Wales and are consequential on and supplementary to the Restricted Roads (20 mph Speed Limit) (Wales) Order 2022, which reduces the general speed limit for restricted roads from 30 mph to 20 mph in Wales from 17 September 2023. A reference in this note to a Schedule is to a Schedule to the 2016 Instrument.

Regulation 3 enables a new road safety plate to be used in addition to the signs which warn of children going to or from school or playground ahead, or of road humps. It also enables a sign for road humps to be accompanied by a plate warning of a traffic calmed area.

Regulation 4 amends the application of the signs used to notify of the entrance to and exit from a 20 mph zone so that they can no longer be used in Wales. As a consequence of the general speed limit for restricted roads being reduced from 30 mph to 20 mph in Wales, 20 mph zones will no longer be necessary and will therefore be abolished.

Mae rheoliad 5 yn galluogi defnyddio dau arwydd newydd. Bydd un arwydd yn cael ei ddefnyddio i rybuddio ynghylch diwedd ardal tawelu traffig a bydd yr arwydd arall yn cael ei ddefnyddio i rybuddio ynghylch camera cyflymder ymhellach ymlaen ac i atgoffa gyrwyr o'r terfyn cyflymder 20 mya. Ni fydd yr arwydd cyfatebol sy'n atgoffa gyrwyr o'r terfyn cyflymder 30 mya yn gymwys i Gymru mwyach er mwyn adlewyrchu'r gostyngiad i'r terfyn cyflymder cyffredinol ar gyfer ffyrdd cyfyngedig.

Mae rheoliad 6 yn galluogi defnyddio arwydd newydd i rybuddio neu nodi bod terfyn cyflymder 20 mya newydd yn cychwyn. Ni fydd yr arwydd cyfatebol sy'n dynodi man cychwyn terfyn cyflymder 30 mya newydd yn gymwys i Gymru mwyach er mwyn adlewyrchu'r gostyngiad i'r terfyn cyflymder cyffredinol ar gyfer ffyrdd cyfyngedig.

Mae rheoliad 9 yn gwahardd defnyddio arwyddion ategu ar ffyrdd sy'n ddarostyngedig i derfyn cyflymder uchaf o 20 mya ac sydd â system goleuo cerbytffyrdd.

Mae rheoliad 10 yn cyfyngu ar ddefnyddio'r arwydd newydd a gyflwynir yn rheoliad 6 sy'n rhybuddio neu'n nodi bod terfyn cyflymder 20 mya newydd yn cychwyn. Ni ellir defnyddio'r arwydd ar ffordd sydd â therfyn cyflymder 20 mya a osodwyd yn ddiweddar ond yn ystod y cyfnod o 12 mis gan ddechrau â'r diwrnod y daw'r terfyn cyflymder 20 mya newydd i rym.

Mae rheoliad 11 yn ddarpariaeth drosiannol ac arbedion sy'n gymwys i Offeryn 2016. Mae arwyddion a oedd yn eu lle cyn i'r Offeryn hwn ddod i rym ac a oedd yn cydymffurfio ag Offeryn 2016 fel yr oedd mewn grym cyn y diwygiadau a wneir gan yr Offeryn hwn i'w trin fel pe baent yn parhau i gydymffurfio ag Offeryn 2016. Bydd y ddarpariaeth drosiannol ac arbedion yn peidio â chael effaith ar ôl 12 mis, heblaw mewn perthynas â'r marc ffordd sy'n dynodi'r terfyn cyflymder uchaf a fydd yn peidio â chael effaith ar ôl 5 mlynedd. Ni fydd y ddarpariaeth drosiannol ac arbedion yn gymwys i'r arwydd sy'n rhybuddio ynghylch camera cyflymder ymhellach ymlaen ar ffordd a gaiff ei goleuo ac sy'n atgoffa gyrwyr o derfyn cyflymder 30 mya.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Offeryn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Offeryn hwn.

Regulation 5 enables two new signs to be used. One sign will be used to warn of the end of a traffic calmed area and the other to warn of a speed camera ahead and remind drivers of the 20 mph speed limit. The corresponding sign reminding drivers of the 30 mph speed limit will no longer apply to Wales to reflect the reduction in the general speed limit for restricted roads.

Regulation 6 enables a new sign to be used to warn of or indicate the commencement of a new 20 mph speed limit. The corresponding sign indicating the commencement point of a new 30 mph speed limit will no longer apply to Wales to reflect the reduction in the general speed limit for restricted roads.

Regulation 9 prohibits the use of repeater signs on roads subject to a maximum speed limit of 20 mph and which have a system of carriageway lighting.

Regulation 10 restricts the use of the new sign introduced in regulation 6 warning of or indicating the commencement of a new 20 mph speed limit. The sign can only be used on a road with a recently imposed speed limit of 20 mph during the period of 12 months beginning with the day on which the new 20 mph speed limit comes into force.

Regulation 11 is a transitional and savings provision which applies to the 2016 Instrument. Signs which were in place prior to the coming into force of this Instrument and which complied with the 2016 Instrument as in force before the amendments made by this Instrument are to be treated as continuing to comply with the 2016 Instrument. The transitional and savings provision will cease to have effect after 12 months, save for in relation to the road marking indicating the maximum speed limit which will cease to have effect after 5 years. The transitional and savings provision will not apply to the sign warning of a speed camera ahead on a lit road and reminding drivers of a 30 mph speed limit.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Instrument. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this Instrument.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2023 Rhif 783 (Cy. 124)

# 2023 No. 783 (W. 124)

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## ROAD TRAFFIC, WALES

### Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023

### The Traffic Signs (Amendment) (Wales) Regulations and General Directions 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *7 Gorffennaf 2023* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *11 Gorffennaf 2023* |
| *Yn dod i rym* | *17 Medi 2023* |

| | |
|---|---|
| *Made* | *7 July 2023* |
| *Laid before Senedd Cymru* | *11 July 2023* |
| *Coming into force* | *17 September 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod perthnasol, yn gwneud y Rheoliadau yn Rhan 1 o'r Offeryn hwn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 64(1), (2) a (3) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) ("Deddf 1984") fel y maent wedi eu hestyn gan adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**2**).

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod perthnasol a'r awdurdod cenedlaethol, yn rhoi'r Cyfarwyddydau Cyffredinol yn Rhan 2 o'r Offeryn hwn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 65(1)(**3**) a 85(2)(**4**) o Ddeddf 1984.

The Welsh Ministers, being the relevant authority, make the Regulations in Part 1 of this Instrument in exercise of the powers conferred by section 64(1), (2) and (3) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**) ("the 1984 Act") as extended by section 26(3) of the Welsh Language Act 1993(**2**).

The Welsh Ministers, being the relevant authority and the national authority, give the General Directions in Part 2 of this Instrument in exercise of the powers conferred by sections 65(1)(**3**) and 85(2)(**4**) of the 1984 Act.

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adran 64(1) a (2) gan adran 26(4)(a) o Ran 2 o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Offeryn hwn. Ar gyfer y diffiniad o "relevant authority" gweler adran 64(6A) o Ddeddf 1984 (gyda'r diffiniad hwnnw wedi ei fewnosod gan adran 26(4)(b) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4) fel mai ystyr "relevant authority" o ran Cymru yw Gweinidogion Cymru).

(**2**) 1993 p. 38.

(**3**) Amnewidiwyd adran 65(1) gan baragraff 48(2) o Ran 2 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22); diwygiwyd adran 65(1) gan baragraff 37(2) o Ran 3 o Atodlen 6 i Ddeddf Cymru 2017 (p. 4); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Offeryn hwn. Ar gyfer y diffiniad o "relevant authority" gweler adran 65(5) o Ddeddf 1984 (gyda'r diffiniad hwnnw wedi ei fewnosod gan baragraff 37(6) o Ran 3 o Atodlen 6 i Ddeddf Cymru 2017 (p. 4) fel mai ystyr "relevant authority" o ran Cymru yw Gweinidogion Cymru).

(**4**) Diwygiwyd adran 85(2) gan baragraff 62(3) o Ran 2 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22); paragraff 30 o Atodlen 4 i Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40); a pharagraff 89(2) o Atodlen 7 i Ddeddf Seilwaith 2015 (p. 7). Ar gyfer y diffiniad o "national authority" gweler adran 142(1) o Ddeddf 1984 (gyda'r diffiniad hwnnw wedi ei fewnosod gan adran 41(18) o Ddeddf yr Alban 2016 (p. 11) ac wedi ei ddiwygio gan adran 26(8) o Ran 2 o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4) fel mai ystyr "national authority" o ran Cymru yw Gweinidogion Cymru).

(**1**) 1984 c. 27; sections 64(1) and (2) were amended by the Wales Act 2017 (c. 4), Part 2, section 26(4)(a); there are other amending instruments but none are relevant to this Instrument. For the definition of "relevant authority" see section 64(6A) of the 1984 Act (that definition having been inserted by section 26(4)(b) of the Wales Act 2017 (c. 4) so that "relevant authority" in relation to Wales, means the Welsh Ministers).

(**2**) 1993 c. 38.

(**3**) Section 65(1) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), Schedule 8, Part 2, paragraph 48(2); section 65(1) was amended by the Wales Act 2017 (c. 4), Schedule 6, Part 3, paragraph 37(2); there are other amending instruments, but none are relevant to this Instrument. For the definition of "relevant authority" see section 65(5) of the 1984 Act (that definition having been inserted by Schedule 6, Part 3, paragraph 37(6) of the Wales Act 2017 (c. 4) so that "relevant authority" in relation to Wales, means the Welsh Ministers).

(**4**) Section 85(2) was amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), Schedule 8, Part 2, paragraph 62(3); the Road Traffic Act 1991 (c. 40), Schedule 4, paragraph 30; and the Infrastructure Act 2015 (c. 7), Schedule 7, paragraph 89(2). For the definition of "national authority" see section 142(1) of the 1984 Act (that definition having been inserted by section 41(18) of the Scotland Act 2016 (c. 11) and amended by the Wales Act 2017 (c. 4), Part 2, section 26(8) so that "national authority" in relation to Wales, means the Welsh Ministers).

Mae Gweinidogion Cymru, mewn cysylltiad â'r Rheoliadau yn Rhan 1, yn unol ag adran 134(10) o Ddeddf 1984, wedi ymgynghori â'r sefydliadau cynrychioliadol yr oeddent yn meddwl eu bod yn addas ac, yn unol ag adran 134(13) o Ddeddf 1984, maent wedi ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol.

Mae Gweinidogion Cymru, mewn cysylltiad â'r Cyfarwyddydau Cyffredinol yn Rhan 2, yn unol ag adrannau 65(3ZC) a 85(10) o Ddeddf 1984, wedi ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol.

# RHAN 1

## Rheoliadau Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023

**Enwi, cymhwyso a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rhan hon o'r Offeryn yw—

(a) Rheoliadau Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023, a

(b) ynghyd â Rhan 2, Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 17 Medi 2023.

**Diwygio Rheoliadau Arwyddion Traffig 2016**

**2.** Mae Rheoliadau Arwyddion Traffig 2016(**1**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 6.

**Diwygio Atodlen 2**

**3.**—(1) Yn Atodlen 2, yn y tabl yn Rhan 2 (Arwyddion rhybudd a phlatiau cysylltiedig)—

(a) yn y rhes yn eitem 25, yn yr ail golofn (Disgrifiad), ar y dechrau mewnosoder "In relation to England,",

(b) ar ôl y rhes yn eitem 25, mewnosoder—

(**1**) Rhan 1 o O.S. 2016/362.

The Welsh Ministers in respect of the Regulations in Part 1 have, in accordance with section 134(10) of the 1984 Act, consulted with such representative organisations as they thought fit and, in accordance with section 134(13) of the 1984 Act, have consulted with the Secretary of State.

The Welsh Ministers in respect of the General Directions in Part 2 have, in accordance with sections 65(3ZC) and 85(10) of the 1984 Act, consulted with the Secretary of State.

# PART 1

## The Traffic Signs (Amendment) (Wales) Regulations 2023

**Title, application and coming into force**

**1.**—(1) This Part of this Instrument may be cited—

(a) as the Traffic Signs (Amendment) (Wales) Regulations 2023, and

(b) together with Part 2, as the Traffic Signs (Amendment) (Wales) Regulations and General Directions 2023.

(2) These Regulations come into force on 17 September 2023.

**Amendment of the Traffic Signs Regulations 2016**

**2.** The Traffic Signs Regulations 2016(**1**) are amended in accordance with regulations 3 to 6.

**Amendment of Schedule 2**

**3.**—(1) In Schedule 2, in the table in Part 2 (Warning signs and associated plates)—

(a) in the row at item 25, in the second column (Description), at the beginning insert "In relation to England,",

(b) after the row at item 25, insert—

(**1**) Part 1 of S.I. 2016/362.


| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 25A | Diagram 545.2<br><br>In relation to Wales, children going to or from school or playground area |  | 1. In the Welsh text—<br><br>(a) “Ysgol”, “Hebryngwr”, “Maes chwarae”, “Plant anabl”, “Plant dall” or “Plant byddar” with or without an arrow pointing to the left or to the right;<br><br>(b) “Ysgol”, “Hebryngwr”, “Maes chwarae”, “Plant anabl”, “Plant dall” or “Plant byddar” and a distance with or without an arrow pointing to the left or to the right; or<br><br>(c) “Dim troedffordd am” and a distance; and<br><br>2. In the English text—<br><br>(a) “School”, “Patrol”, “Playground”, “Disabled children”, “Blind children” or “Deaf children” with or without an arrow pointing to the left or to the right;<br><br>(b) “School”, “Patrol”, “Playground”, “Disabled children”, “Blind children” or “Deaf children” and a distance with or without an arrow pointing to the left or to the right; or<br><br>(c) “No footway for” and a distance. | 5 | | 1 |

(c) yn y rhes yn eitem 43, yn yr ail golofn (Disgrifiad), ar y dechrau mewnosoder “In relation to England,”, a

(d) ar ôl y rhes yn eitem 43, mewnosoder—

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 43A | Diagram 557.2<br><br>In relation to Wales, road hump or series of road humps ahead |  | 1. In the Welsh text—<br><br>(a) "Twmpath" or "Twmpathau" with or without an arrow pointing to the left or to the right;<br><br>(b) "Twmpath" or "Twmpathau" with two arrows, one pointing to the left and one pointing to the right;<br><br>(c) "Twmpath" or "Twmpathau am" and a distance, with or without an arrow pointing to the left or to the right;<br><br>(d) "Twmpath" or "Twmpathau am" and a distance, with two arrows, one pointing to the left and one pointing to the right; or<br><br>(e) "Ardal tawelu traffig"; and<br><br>2. In the English text—<br><br>(a) "Hump" or "Humps" with or without an arrow pointing to the left or to the right;<br><br>(b) "Hump" or "Humps" with two arrows, one pointing to the left and one pointing to the right;<br><br>(c) "Hump" or "Humps for" and a distance, with or without an arrow pointing to the left or to the right;<br><br>(d) "Hump" or "Humps for" and a distance, with two arrows, one pointing to the left and one pointing to the right; or<br><br>(e) "Traffic calmed area". | 5 | | 1 |

(2) Yn Atodlen 2, yn y tabl yn Rhan 3 (Platiau cysylltiedig atodol i'w gosod mewn cyfuniad ag arwyddion yn Rhan 2), ar y diwedd, mewn rhes newydd, mewnosoder—

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5 | Diagram 545.3<br><br>In relation to Wales, road safety image or slogan |  | |

**Diwygio Atodlen 10**

**4.** Yn Atodlen 10, yn y tabl yn Rhan 2 (Arwyddion a marciau ffordd sy'n dynodi terfynau cyflymder)—

(a) yn y rhes yn eitem 5, yn yr ail golofn (Disgrifiad), ar y dechrau mewnosoder "In relation to England,",


(b) yn y rhes yn eitem 6, yn yr ail golofn (Disgrifiad), ar y dechrau mewnosoder "In relation to England,", ac

(c) yn y rhes yn eitem 7, yn yr ail golofn (Disgrifiad), ar y dechrau mewnosoder "In relation to England,".

**Diwygio Atodlen 11**


**5.** Yn Atodlen 11, yn y tabl yn Rhan 2 (Arwyddion unionsyth)—

(a) ar ôl y rhes yn eitem 32, mewnosoder—

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 32A | Diagram 883.1<br><br>In relation to Wales, end of traffic calmed area |  | | | |

(b) yn y rhes yn eitem 64, yn yr ail golofn (Disgrifiad), ar y dechrau mewnosoder "In relation to England,", ac

(c) ar ôl y rhes yn eitem 64, mewnosoder—


| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 64A | Diagram 880.2<br><br>In relation to Wales, speed camera ahead on a lit road and reminder of 20 mph speed limit |  | 21 (2) | | | |

**Diwygio Atodlen 13**

**6.** Yn Atodlen 13, yn y tabl yn Rhan 6 (arwyddion dros dro ychwanegol)—

(a) yn y rhes yn eitem 38, yn yr ail golofn (disgrifiad), ar y dechrau mewnosoder “In relation to England,”, a

(b) ar ôl y rhes yn eitem 38, mewnosoder—

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 38A | Diagram 7032.1<br><br>In relation to Wales, commencement point or warning of the commencement point of a newly imposed 20 mph speed limit |  | 1. “O’CH BLAEN” may be inserted after “MYA” in the Welsh text.<br><br>2. “AHEAD” may be inserted after “LIMIT” in the English text. | 8 | 13A | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 25A | Diagram 545.2<br><br>In relation to Wales, children going to or from school or playground area |  | 1. In the Welsh text—<br><br>(a) “Ysgol”, “Hebryngwr”, “Maes chwarae”, “Plant anabl”, “Plant dall” or “Plant byddar” with or without an arrow pointing to the left or to the right;<br><br>(b) “Ysgol”, “Hebryngwr”, “Maes chwarae”, “Plant anabl”, “Plant dall” or “Plant byddar” and a distance with or without an arrow pointing to the left or to the right; or<br><br>(c) “Dim troedffordd am” and a distance; and<br><br>2. In the English text—<br><br>(a) “School”, “Patrol”, “Playground”, “Disabled children”, “Blind children” or “Deaf children” with or without an arrow pointing to the left or to the right;<br><br>(b) “School”, “Patrol”, “Playground”, “Disabled children”, “Blind children” or “Deaf children” and a distance with or without an arrow pointing to the left or to the right; or<br><br>(c) “No footway for” and a distance. | 5 | | 1 |


(c) in the row at item 43, in the second column (Description), at the beginning insert “In relation to England,”, and

(d) after the row at item 43, insert—

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 43A | Diagram 557.2<br><br>In relation to Wales, road hump or series of road humps ahead |  | 1. In the Welsh text—<br><br>(a) “Twmpath” or “Twmpathau” with or without an arrow pointing to the left or to the right;<br><br>(b) “Twmpath” or “Twmpathau” with two arrows, one pointing to the left and one pointing to the right;<br><br>(c) “Twmpath” or “Twmpathau am” and a distance, with or without an arrow pointing to the left or to the right;<br><br>(d) “Twmpath” or “Twmpathau am” and a distance, with two arrows, one pointing to the left and one pointing to the right; or<br><br>(e) “Ardal tawelu traffig”; and<br><br>2. In the English text—<br><br>(a) “Hump” or “Humps” with or without an arrow pointing to the left or to the right;<br><br>(b) “Hump” or “Humps” with two arrows, one pointing to the left and one pointing to the right;<br><br>(c) “Hump” or “Humps for” and a distance, with or<br>without an arrow pointing to the left or to the right;<br><br>(d) “Hump” or “Humps for” and a distance, with two arrows, one | 5 | | 1 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | pointing to the left and one pointing to the right; or<br><br>(e) “Traffic calmed area”. | | | |

(2) In Schedule 2, in the table in Part 3 (Supplementary associated plates for placing in combination with signs in Part 2), at the end, in a new row, insert—

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5 | Diagram 545.3<br><br>In relation to Wales, road safety image or slogan |   | |

### Amendment of Schedule 10

**4.** In Schedule 10, in the table in Part 2 (Signs and road markings indicating speed limits)—

(a) in the row at item 5, in the second column (Description), at the beginning insert “In relation to England,”,


(b) in the row at item 6, in the second column (Description), at the beginning insert “In relation to England,”, and

(c) in the row at item 7, in the second column (Description), at the beginning insert “In relation to England,”.

### Amendment of Schedule 11


**5.** In Schedule 11, in the table in Part 2 (Upright signs)—

(a) after the row at item 32, insert—

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 32A | Diagram 883.1<br><br>In relation to Wales, end of traffic calmed area |   | | | |

(b) in the row at item 64, in the second column (Description), at the beginning insert “In relation to England,”, and

(c) after the row at item 64, insert—


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 64A | Diagram 880.2<br><br>In relation to Wales, speed camera ahead on a lit road and reminder of 20 mph speed limit |   | 21 (2) | | |

**Amendment of Schedule 13**

**6.** In Schedule 13, in the table in Part 6 (Additional Temporary Signs)—

(a) in the row at item 38, in the second column (Description), at the beginning insert "In relation to England,", and

(b) after the row at item 38, insert—

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 38A | Diagram 7032.1<br><br>In relation to Wales, commencement point or warning of the commencement point of a newly imposed 20 mph speed limit |   | 1. "O'CH BLAEN" may be inserted after "MYA" in the Welsh text.<br><br>2. "AHEAD" may be inserted after "LIMIT" in the English text. | 8 | 13A |

# RHAN 2

## Cyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023

**Enwi, cymhwyso a dod i rym**

**7.**—(1) Enw'r Rhan hon o'r Offeryn yw—

(a) Cyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023, a

(b) ynghyd â Rhan 1, Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau Cyffredinol hyn i rym ar 17 Medi 2023.

**Diwygio Cyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016**

**8.** Mae Cyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016(**1**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 9 a 10.

**Diwygio Atodlen 10**

**9.** Yn Atodlen 10, yn Rhan 4 (Cyfarwyddydau Cyffredinol Atodlen 10), yn lle paragraff 2, rhodder—

"**2.** This sign must not be placed as a repeater sign where—

(a) in relation to England, the road is subject to a maximum speed limit of 30 mph and has a system of carriageway lighting; or

(b) in relation to Wales, the road is subject to a maximum speed limit of 20 mph and has a system of carriageway lighting."

**Diwygio Atodlen 13**

**10.** Yn Atodlen 13, yn Rhan 12 (Cyfarwyddydau Cyffredinol Atodlen 13) ar ôl paragraff 13, mewnosoder—

"**13A.** The sign may only be placed—-

(a) to indicate or give warning of the point at which a recently imposed speed limit of 20 mph begins on a road; and

(b) during the period of 12 months beginning with the day on which the 20 mph speed limit comes into force."

(**1**) Rhan 2 o O.S. 2016/362.

# PART 2

## The Traffic Signs (Amendment) (Wales) General Directions 2023

**Title, application and coming into force**

**7.**—(1) This Part of this Instrument may be cited—

(a) as the Traffic Signs (Amendment) (Wales) General Directions 2023, and

(b) together with Part 1, as the Traffic Signs (Amendment) (Wales) Regulations and General Directions 2023.

(2) These General Directions come into force on 17 September 2023.

**Amendment to the Traffic Signs General Directions 2016**

**8.** The Traffic Signs General Directions 2016(**1**) are amended in accordance with regulations 9 and 10.

**Amendment of Schedule 10**

**9.** In Schedule 10, in Part 4 (The Schedule 10 General Directions) for paragraph 2, substitute—

"**2.** This sign must not be placed as a repeater sign where—

(a) in relation to England, the road is subject to a maximum speed limit of 30 mph and has a system of carriageway lighting; or

(b) in relation to Wales, the road is subject to a maximum speed limit of 20 mph and has a system of carriageway lighting."

**Amendment of Schedule 13**

**10.** In Schedule 13, in Part 12 (The Schedule 13 General Directions) after paragraph 13, insert—

"**13A.** The sign may only be placed—-

(a) to indicate or give warning of the point at which a recently imposed speed limit of 20 mph begins on a road; and

(b) during the period of 12 months beginning with the day on which the 20 mph speed limit comes into force."

(**1**) Part 2 of S.I. 2016/362.

# RHAN 3

## Darpariaeth drosiannol ac arbedion

**11.**—(1) Mae arwydd traffig i'w drin fel pe bai'n cydymffurfio ag Offeryn 2016 fel y'i diwygir gan yr Offeryn hwn—

(a) pan fo'r arwydd traffig yn ei le yn union cyn 17 Medi 2023,

(b) pan fo'r arwydd traffig yn cydymffurfio ag Offeryn 2016 fel yr oedd mewn grym yn union cyn 17 Medi 2023, ac

(c) pan na fo'r arwydd traffig yn cydymffurfio ag Offeryn 2016 fel y'i diwygir gan yr Offeryn hwn.

(2) Ond mae paragraff (1)—

(a) yn peidio â bod yn gymwys i arwyddion traffig a ragnodir gan eitem 9 yn y tabl yn Rhan 2 o Atodlen 10 i Offeryn 2016 ar ddiwedd y dydd ar 16 Medi 2028;

(b) yn peidio â bod yn gymwys i unrhyw arwyddion traffig eraill ar ddiwedd y dydd ar 16 Medi 2024.

(3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i arwyddion traffig a ragnodir gan eitem 64 yn y tabl yn Rhan 2 o Atodlen 11 i Offeryn 2016.

(4) Yn y rheoliad hwn—

(a) ystyr "Offeryn 2016" yw Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016;

(b) mae i "arwydd traffig" yr ystyr a roddir i "traffic sign" yn adran 64(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

# PART 3

## Transitional and savings provision

**11.**—(1) A traffic sign is to be treated as complying with the 2016 Instrument as amended by this Instrument where—

(a) the traffic sign was in place immediately before 17 September 2023,

(b) the traffic sign complies with the 2016 Instrument as in force immediately before 17 September 2023, and

(c) the traffic sign is not in compliance with the 2016 Instrument as amended by this Instrument.

(2) But paragraph (1)—

(a) ceases to apply to traffic signs prescribed by item 9 in the table at Part 2 of Schedule 10 to the 2016 Instrument at the end of the day on 16 September 2028;

(b) ceases to apply to any other traffic signs at the end of the day on 16 September 2024.

(3) Paragraph (1) does not apply to traffic signs prescribed by item 64 in the table in Part 2 of Schedule 11 to the 2016 Instrument.

(4) In this regulation—

(a) "the 2016 Instrument" means the Traffic Signs Regulations and General Directions 2016;

(b) "traffic sign" has the meaning given in section 64(1) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

*Lee Waters*

Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru
7 Gorffennaf 2023

Deputy Minister for Climate Change, under authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers
7 July 2023

©ⓗHawlfraint y Goron 2023

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2023

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

£9.75

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2023/783

ISBN 978-0-348-39457-3